

Monitro Haf 2015 – Hydref 2015

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

Ysgolion Uwchradd	Adroddiad HA	Canfyddiad Ysgol			Adroddiad Estyn	Dyddiad	Canfyddiad Estyn
		CA3	CA4	Addoli ar y cyd			
Gwanwyn 2015							
Dyffryn Nantlle	✓	Da	Digonol	Digonol	31/3/15 ✓	26/1/15	Digonol
Y Gader	✓	Da	Da	Digonol	8/5/15 ✓	2/3/15	Digonol

Ysgolion Cynradd	Adroddiad HA	Canfyddiadau Ysgol			Adroddiad Estyn	Dyddiad	Canfyddiad Estyn
		CA1	CA2	Addoli ar y cyd			
Gwanwyn 2015							
Dolgellau					24/3/15 ✓	19/1/15	Anfoddhaol
Y Traeth	✓	Da	Da	Da	22/5/15 ✓	16/3/15	Da
Haf 2015							
Llanaelhaearn	✓	Da	Da	Da	2/7/15 ✓	27/4/15	Digonol
Llanrug					4/8/15 ✓	1/6/15	Da
Llanelltyd	✓	Da	Da	Da	18/8/15 ✓	15/6/15	Da
Hirael	✓	Da	Da	Da	25/8/15 ✓	22/6/15	Da
Beddgelert	✓	Da	Da	Rhagorol	25/8/15 ✓	22/6/15	Da
Hydref 2015							
Babanod Morfa Nefyn	✓	Da	Da	Rhagorol	17/11/15	14/9/15	
Foelgron					22/12/15	19/10/15	
Garndolbenmaen							

Ysgolion Arbennig	Adroddiad HA	Canfyddiad Ysgol			Adroddiad Estyn	Dyddiad	Canfyddiad Estyn
		CA1	CA2	Addoli ar y cyd			

Yn ystod y cyfnod tymor yr Haf 2015 cafodd 5 o ysgolion cynradd, 0 ysgol uwchradd ac 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 3 ysgol arall yn ogystal ag 0 ysgol uwchradd yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol:

Sylwadau Estyn:

Tymor Gwanwyn 2015

Y Traeth (Mawrth 2015)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ble mae disgyblion yn cael cefnogaeth gref sy'n sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a'u datblygiad personol a chymdeithasol. Mae cyfnodau addoli ar y cyd, ynghyd â'r cyfleoedd i ddysgu am greddau pobl o wahanol ddiwylliannau, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Caiff yr agweddau hyn eu cefnogi'n dda gan raglen addysg bersonol a chymdeithasol fanwl a chan ymweliadau rheolaidd gan arbenigwyr allanol, fel yr heddlu.

Tymor yr Haf 2015

Llanaelhaearn (Ebrill 2015)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i fyfyrion a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy wasanaethau ysgol gyfan reolaidd a gweithgareddau eraill fel cyfnodau amser cylch.

Llanrug (Mehefin 2015)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n hyrwyddo lles y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol gyda disgyblion yn trin y staff, ymwelwyr a'u cyd-ddisgyblion â pharch.

Llanelltyd (Mehefin 2015)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae lefel uchel y gofal a'r cydweithio rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n dda at les y disgyblion.... Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn cael sylw da ar draws y cwricwlwm. Mae sesiynau addoli ar y cyd dyddiol, sydd yn rhoi pwyslais clir ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, a chymdeithasol disgyblion. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd gofalu am bobl lai ffodus.

Hirael (Mehefin 2015)

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda.

Beddgelert

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ddiogel a chymwynasgar iawn. Mae ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau pwrpasol yn eu lle i hybu iechyd a lles. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae arwyddion o gwmpas yr ysgol i hyrwyddo gwerthoedd fel parch a chwarteisi ac mae cerdd a ysgrifennwyd gan y disgyblion yn cadarnhau eu hymrwymiad i'r gwerthoedd hyn wedi ei harddangos gyda balchder.

Llwydda'r ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn effeithiol trwy weithgareddau fel 'Fy llofnod', 'Llaw Personoliaeth' a 'Sut berson ydw i' yn ystod gwersi addysg grefyddol.